

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: PWYLLGOR ARCHWILIO

ADRODDIAD 02-02 - Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Ionawr
2002 yn unol ag adran 102(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

ADDYSGU A HYFFORDDI GWEITHLU IECHYD PROFFESIYNOL Y DYFODOL I GYMRU

CYNNWYS	Paragraff
Cyflwyniad	1
Goresgyn prinderau staff NHS	7
Cyflenwi'r niferoedd gofynnol o broffesiynolion iechyd newydd o ansawdd da	19
Sicrhau gwerth am arian	37
Argymhellion	51
Sylwadau terfynol	52

Atodiadau

Atodiad A: Trafodion Perthnasol o'r Pwyllgor – Cofnodion Tystiolaeth
(Dydd Iau 28 Mehefin 2000)

Atodiad B - Y Pwyllgor Archwilio

CYFLWYNIAD

1. Mae a wnelo'r adroddiad hwn â'r ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor i addysg a hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr iechyd proffesiynol – sef nyrsys, bydwagedd a phroffesiynolion eraill megis ffisiotherapyddion a radiograffwyr. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHS) yn wynebu prinderau sylweddol o'r proffesiynolion iechyd, ac un ffordd allweddol o oresgyn y prinderau hyn yw addysgu a hyfforddi staff newydd. Er mwyn sicrhau bod yr NHS yn hyfforddi'r niferoedd a'r mathau priodol o staff iechyd proffesiynol, a bod y staff hynny'n addas i ymarfer, rhaid cynllunio'r gweithlu yn dda a chael systemau effeithiol ar gyfer comisiynu a chyflenwi. Rhaid cael cydweithrediad agos hefyd rhwng yr NHS ac eraill sy'n cyfogi staff gofal iechyd, y darparwyr addysg a hyfforddiant, a gwahanol gyrff rheoleiddio a chyrrff proffesiynol.¹
2. Ym 1999 - 2000 gwariodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Y Cynulliad) £42 miliwn ar leoedd hyfforddiant cyn cofrestru ac ysgoloriaethau ar gyfer tua 3,200 o fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth a myfyrwyr iechyd proffesiynol cysylltiol. Darperir y rhan fwyaf o'r addysg trwy gcontractau NHS gyda chwe sefydliad addysg uwch yng Nghymru, ac y mae'n arwain at gymwysterau ar lefel gradd neu ddiploma.²
3. Yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru³ yr edrychwyd gyntaf ar y pwnc pwysig hwn, a hynny o safbwynt yr NHS yn ogystal â safbwynt addysg uwch. Yr ydym felly wedi cymryd tystiolaeth gan dystion a oedd yn cynrychioli'r ddau sector hyn. Y dystion dros NHS Cymru oedd: **Ann Lloyd**, Cyfarwyddwr NHS Cymru; **Sarah Beaver**, Pennaeth Is-adran Cyllid yr NHS; ac **Alan Hanna**, Pennaeth Cangen Addysg a Hyfforddiant (Proffesiynol a Rheolwrol), Is-adran Adnoddau Dynol, Cyfarwyddiaeth yr NHS, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y dystion yn cynrychioli'r sefydliadau addysg uwch oedd: **Steve Martin**, Prif

¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC): Addysgu a hyfforddi gweithlu iechyd proffesiynol y dyfodol i Gymru (Mawrth 2001) paragraffau 1 a 3

² Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) Blwch A: Ffeithiau Allweddol

³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC): Addysgu a hyfforddi gweithlu iechyd proffesiynol y dyfodol i Gymru (Mawrth 2001)

Weithredwr a Swyddog Cyfrifo Addysg a Dysgu Cymru (ELWa); a **Roger Carter**, Pennaeth Rhaglenni, Addysg a Dysgu Cymru.

4. Y thema lywodraethol yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru oedd y pwysigrwydd o ddatblygu gwell cydweithio mewn partneriaeth rhwng yr NHS a'r sefydliadau addysg uwch. Yr oeddem yn ddiolchgar i'r tystion am eu hatebion cadarnhaol ac adeiladol i'n cwestiynau; cawsom ein hargyhoeddi bod y pwysigrwydd o gydweithio mewn partneriaeth bellach wedi gwreiddio'n gadarn yn y berthynas rhwng y ddau sector.
5. O fewn y cyd-destun cyffredinol hwn, mae'n hadroddiad yn canolbwyntio ar dri phrif faes:
 - priodoldeb y mesurau a ddefnyddir gan NHS Cymru i oresgyn prinderau staff, gan gynnwys yr angen i wella'r system ar gyfer cynllunio'r gweithlu;
 - a fydd y trefniadau addysg a hyfforddiant yn darparu'r niferoedd angenrheidiol o staff newydd, o'r ansawdd sy'n ofynnol; a
 - sut y mae'r Cynulliad a'r sector addysg uwch yn bwriadu sicrhau bod y naill barti a'r llall yn cael gwell gwerth am arian o'r trefniadau ar gyfer addysgu a hyfforddi staff iechyd proffesiynol.
6. Mae'n hadroddiad yn nodi ein prif ganfyddiadau a'n casgliadau, ynghyd â nifer o argymhellion ar gyfer y Cynulliad, yr Ymddiriedolaethau NHS a'r sefydliadau addysg uwch. Bwriad yr argymhellion hyn yw cynorthwyo'r sectorau addysg ac iechyd i gydweithio'n fwy effeithiol, ac yn benodol: cyflenwi niferoedd digonol o staff gofal iechyd proffesiynol newydd; darparu addysg a hyfforddiant yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon; a sicrhau y gall y staff iechyd proffesiynol sy'n cymhwyso o'r newydd ddarparu gofal o ansawdd da i'r cleifion.

GORESGYN PRINDERAU STAFF

7. Tan yn ddiweddar, yr oedd Cymru'n gymharol hunangynhaliol o ran bodloni'r galw am staff proffesiynol gofal iechyd newydd. Bellach, fodd bynnag, mae

prinderau staff wedi tyfu'n fater mwy a mwy difrifol, ac ym mis Gorffennaf 2000 nododd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd y lefelau comisiynu cyfredol yn ddigonol i gwrdd â'r galw cyfredol.⁴

8. Gan fod hyfforddi gweithiwr iechyd proffesiynol newydd yn cymryd rhwng tair a phedair blynedd, nid yw codi'r lefelau comisiynu ni ellir ond yn gymorth i ateb y galw ymhen tymor cymharol hir. Yn y cyfamser, mae Ymddiriedolaethau NHS Cymru'n recriwtio niferoedd cynyddol o staff cymwysedig o dramor, yn cynnal ymgyrchoedd Dychwelyd i Ymarfer, ac yn trefnu amrywiaeth o fentrau recriwtio a chadw sy'n amcanu i wella amodau gwaith eu staff.⁵ Maent hefyd yn dibynnu fwyfwy ar nyrsys asiantaeth i lenwi swyddi gwag.⁶

Cynyddu lefelau comisiynu i gwrdd â'r galw hirdymor

9. Dros y pum mlynedd diwethaf mae nifer y lleoedd hyfforddi i fyfyrwyr cyn cofrestru a gomisiynwyd gan y Cynulliad wedi cynyddu'n gyson er mwyn diwallu'r galw cynyddol. Er enghraifft, cynyddodd y nifer o leoedd hyfforddi cyn cofrestru ar gyfer nyrsys 25 y cant rhwng 1996 a 1999 (o 1,991 i 2,481). Er gwaethaf yr ychwanegiadau hyn, mae'r galw, ers tua dwy flynedd, wedi cynyddu'n gyflymach nag a ragwelwyd yn rhagdybiaethau'r Ymddiriedolaethau NHS wrth gynllunio'r gweithlu.⁷ Yng Ngorffennaf 2000, er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth yn y dyfodol, hysbyswyd y prifysgolion gan y Cynulliad y byddai'n comisiynu 265 o leoedd addysg a hyfforddiant ychwanegol ar gyfer proffesiynolion iechyd, gan gynnwys 190 o leoedd nyrsio a bydwreigiaeth, yn 2001 - 02.⁸

Mesurau ar gyfer goresgyn prinderau staff yn y tymor byr.

⁴ Adroddiad ACC paragraffau 4 ac 1.3

⁵ Adroddiad ACC paragraff 5

⁶ Tystiolaeth, Cwestiwn 9

⁷ Adroddiad ACC paragraffau 1.4 a 2.13 - 2.14

⁸ Adroddiad ACC paragraffau 1.6 a 2.19

10. Gofynasom i NHS Cymru pa mor llwyddiannus y bu'r gwahanol fesurau i oresgyn y prinderau staff byrdymor; sut y mae'r NHS yn sicrhau bod y staff a ddefnyddir yn cyrraedd y safonau ansawdd gofynnol; a pha gynlluniau a oedd gan NHS Cymru i leihau'r ddibyniaeth ar fesurau byrdymor yn y dyfodol.⁹
11. Fel yn Lloegr, bu'r NHS yng Nghymru'n cynnal ymgyrchoedd Dychwelyd i Ymarfer er mwyn denu staff cymwysedig yn ôl i'r gwasanaeth. Yn yr ymgyrchoedd hyn targedwyd grwpiau penodol o nyrsys a phroffesiynolion ieched, gan nodi'r pethau a fyddai'n annog staff o'r fath i dychwelyd i weithio. Dywedodd Cyfarwyddwr NHS Cymru wrthym y dyrannwyd tua £175,000 y llynedd i'r cynllun Dychwelyd i Ymarfer ar gyfer nyrsys, a bod cyfanswm o tua 140 o staff wedi dychwelyd i'r gwasanaeth o ganlyniad i'r ymgyrchoedd. Yr oedd rhagor o waith ar droed hefyd, gyda chyfranogiad Prif Swyddog Nyrsio Cymru, i ganfod pa bethau yr oedd angen eu newid yn yr arferion gwaith er mwyn parhau i ddenu staff yn ôl i waith llawn-amser neu ran-amser; er enghraifft, arbrofwyd gyda mesurau fel wardiau tymor-ysgol ac arferion gwaith hwylus i deuluoedd.¹⁰
12. Bu Ymddiriedolaethau NHS Cymru'n bur llwyddiannus hefyd wrth recriwtio staff ieched proffesiynol o dramor, ac yr oedd tua 500 o'r nyrsys hyn mewn swyddi ym Mehefin 2001. Mater i Gyngor Canolog Nyrsio, Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Ieched y Deyrnas Unedig (UKCC) yw achredu nyrsys o dramor, trwy wirio'u cymwysterau a'u profiad. Mae'n rhaid i bob ymarferydd o dramor fodloni'r UKCC y gallant ymarfer yn effeithiol a bod eu hyfedredd ieithyddol yn dda. Dywedodd yr NHS wrthym iddynt gael peth anhawster i gael achrediadau UKCC, yn bennaf oherwydd y niferoedd mawr. Fodd bynnag, mae'r nyrsys hyn yn gweithio i'r Ymddiriedolaethau fel cynorthwywyr nyrsio dan oruchwyliaeth, tra'n aros i'w hachredu.¹¹
13. Yn 2000-2001, gwariodd NHS Cymru oddeutu £17.7 miliwn ar staff Asiantaeth.¹² Dywedwyd wrthym bod rhaid i bob Ymddiriedolaeth NHS ddibynnu, i wahanol

⁹ Tystiolaeth, Cwestiynau 2, 8, 9 a 10

¹⁰ Tystiolaeth, C2

¹¹ Tystiolaeth, C8

raddau, ar staff asiantaeth, ond eu bod yn gweithio i leihau'r ddibyniaeth honno. Yn ogystal, yr oedd nifer o Ymddiriedolaethau wedi sefydlu Banciau Nyrsys, naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd ag Ymddiriedolaethau eraill, er mwyn cael dewis hyblyg arall yn lle'r asiantaethau. Fodd bynnag, ar gyfer rhai arbenigeddau penodol, megis Unedau Therapi Dwys (ITU), lle mae staff â'r cymwysterau priodol yn brin iawn, mae llawer o'r Ymddiriedolaethau wedi cytuno gydag asiantaethau ar drefniadau ynglŷn â staff asiantaeth penodol, sydd wedyn yn dod yn aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol. Yn yr un modd, mae'r NHS wedi cynyddu nifer y gwelyau therapi dwys a gofal coronaidd dros y flwyddyn ddiwethaf, a llwyddodd rhai Ymddiriedolaethau i gael nifer rhesymol o staff asiantaeth enwebedig i weithio shifftiau rheolaidd er mwyn cynorthwyo staff yr Ymddiriedolaeth. Ni wyddai NHS Cymru pa bryd y gellid disgwyl gweld gostyngiad yn nifer y staff asiantaeth, ond cytunwyd i roi ateb pendant i'r cwestiwn hwnnw ar ôl y cyfarfod adolygu chwarterol, yn ddiweddarach eleni.¹³

14. Yr ydym yn croesawu'r modd y llwyddodd yr ymgyrch "Dychwelyd i Ymarfer" hyd yma; a chyn belled â bod staff o'r fath yn cael hyfforddiant priodol, mae'n amlwg eu bod yn ffynhonnell staffio werthfawr i'r NHS. Cydnabyddwn hefyd y bydd yn ofynnol ar adegau dibynnu ar nyrsys tramor yn ogystal â staff o'r banciau a'r asiantaethau. Fodd bynnag, yr ydym yn pryderu ynghylch y cynnydd ymddangosiadol yn y fath ddibyniaeth, a'r posibilrwydd nad yw'r staff hyn, yn enwedig y staff o'r asiantaethau, hwyrach yn ddigon profiadol yn y meysydd y defnyddir hwy ynddynt, neu na hyfforddir hwy'n briodol. **Argymhellwn y dylai NHS Cymru osod a monitro targedau ar gyfer y defnydd o staff tramor a staff asiantaeth; ac yn y cyfamser, y dylai'r Ymddiriedolaethau NHS wirio a chadw cofnodion o'r hyfforddiant a gânt, a dylent geisio lleihau eu dibyniaeth ar staff o'r fath o fewn amserlen a gytunir.**
15. Yr oeddem yn bryderus oherwydd methiant ymddangosiadol y system gynllunio gweithlu i ragweld y galw'n fwy cywir, a gofynnwyd i'r NHS pa gynlluniau

¹² Atodiad A o'r Nodyn i'r Pwyllgor dyddiedig 10 Awst 2001

¹³ Tystiolaeth, Cwestiynau 8 - 10

oedd ganddynt i wella'r sefyllfa. Dywedodd yr NHS wrthym eu bod yn cytuno â beirniadaeth¹⁴ yr Archwilydd Cyffredinol o'r trefniadau cynllunio gweithlu, yn enwedig ar lefel yr Ymddiriedolaethau, lle'r oedd y sgiliau cynllunio gweithlu yn amrywio, ac y cafwyd anhawster i ddeall y broses. Yr oedd gwendidau hefyd yn ansawdd, cywirdeb ac amseroldeb y wybodaeth a ddefnyddir ar gyfer rhagfynegi. Yr oeddent yn cydnabod bod angen gwella'r cynllunio gweithlu er mwyn goresgyn y prinderau staff.¹⁵

16. Dywedodd Cyfarwyddwr NHS Cymru wrthym eu bod wedi sefydlu canllawiau newydd ar gyfer cynllunio'r gweithlu mewn ffordd fwy cywir o lawer, gan gymryd i ystyriaeth datblygiadau newydd, yn enwedig y fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol a baratoir. Maent hefyd, yn awr, yn archwilio'r cynlluniau gweithlu'n fwy manwl, gan gymryd i ystyriaeth proffil oedran eu staff, newidiadau mewn ymarfer, cymysgeddau sgiliau cyfnewidiol, a materion fel yr ymgynghorwyr nyrsio newydd, ymarferwyr estynedig, ac estyn swyddogaethau ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a radiograffwyr. Mae'r cynlluniau gweithlu bellach wedi'u mapio'n eglur ar draws i'r materion adnoddau dynol sy'n codi o'r rhaglen gwella iechyd; a holir y cyrff yn fanwl, a ydynt wedi ystyried pob newid ymarfer y bydd ei angen, i ddarparu'r gofal angenrheidiol yn awr ac ymhen pum mlynedd.¹⁶ Dywedwyd wrthym hefyd y bwriedir defnyddio dull mwy cydweithiol o gynllunio'r gweithlu, yn rhan o Arolwg Datblygu Gweithlu'r Cynulliad a lansiwyd yn ystod hydref 2000.
17. Tan 1998 yr oedd Swyddfa Economeg y Gweithlu'n casglu data gan yr Ymddiriedolaethau NHS am swyddi gwag, yn rhan o'i arolwg blynyddol ar gyfer y Corff Adolygu Cyflogau. Er nad oes ffigurau cymharol ar gael am y blynyddoedd diweddar yng Nghymru, mae'n wybyddus bod y cyfraddau swyddi gwag yn cynyddu.¹⁷ Cytunodd Cyfarwyddwr NHS Cymru fod angen asesu

¹⁴ Adroddiad ACC, paragraffau 2.4 - 2.7

¹⁵ Tystiolaeth, Cwestiynau 1 a 13

¹⁶ Tystiolaeth, Cwestiynau 1, 13 a 16

¹⁷ Tystiolaeth, Adroddiad ACC paragraff 1.5

¹⁸ Tystiolaeth, Cwestiynau 4 - 7

lefelau'r swyddi gwag yn yr NHS mor fanwl gywir ag y bo modd, er mwyn cael systemau effeithiol ar gyfer cynllunio'r gweithlu; ond yr oedd yn cydnabod nad oes ganddynt ddata dibynadwy am y cyfraddau swyddi gwag. Yr Ymddiriedolaethau sy'n gyfrifol am gasglu'r data am eu swyddi gwag, ond canfuwyd bod y dull a ddefnyddir i'w casglu yn amrywio'n fawr. Mae'r Cyfarwyddwr bellach wedi gorchymyn y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i sicrhau bod yr ymddiriedolaethau'n rhoi sylw manwl i gasglu'r data priodol am leoedd gwag, a hefyd i ymchwilio i'r modd y llenwir y lleoedd sy'n wag.¹⁸

18. Yr ydym yn croesawu gwaith y Cynulliad yn cyflwyno canllawiau cynllunio gweithlu newydd. Fodd bynnag, er mwyn i'r canllawiau hyn fod yn effeithiol, mae angen i'r Cynulliad roi sylw i'r sgiliau cynllunio gweithlu annigonol yn yr Ymddiriedolaethau NHS, ac i ansawdd, cywirdeb ac amseroldeb y wybodaeth a ddefnyddir ar gyfer rhagfynegi. **Yr ydym yn argymhell y dylai Cyfarwyddiaeth yr NHS gydweithio â'r holl gyflogwyr NHS i sicrhau bod personél medrus ganddynt ar gyfer cynllunio gweithlu, eu bod yn defnyddio systemau data a chynllunio cyffredin a'u bod yn casglu data cymaradwy cywir am y cyfraddau swyddi gwag.**

CYFLENWI'R NIFEROEDD GOFYNNOL O STAFF NEWYDD O ANSAWDD DA

Gallu'r sefydliadau i ymdopi â'r cynnydd yn y lefelau comisiynu

19. Pwysleisiwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod y sefydliadau addysg uwch, hyd yma, wedi llwyddo i ymdopi â'r codiadau yn niferoedd y myfyrwyr, ond bod mwyafrif y sefydliadau'n ystyried eu bod bellach yn llawn neu'n agos at hynny.¹⁹ Gofynasom i Brif Weithredwr Addysg a Dysgu Cymru a oedd yn hyderus y gallai'r sector addysg uwch barhau i ymdopi â'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr iechyd proffesiynol.²⁰

¹⁹ Adroddiad ACC paragraffau 7, 2.21 a 3.23

²⁰ Tystiolaeth, C11

20. Dywedodd wrthym fod y sector addysg uwch, hyd yma, wedi ymateb i alwadau'r NHS trwy ddarparu ar gyfer codiadau yn niferoedd y lleoedd hyfforddi o fewn y cyfleusterau a oedd ganddynt eisoes. Bu dialog agos rhwng y Cynulliad a'r Sefydliadau, ac y mae hynny'n parhau, er mwyn canfod beth sydd ei angen o ran galluoedd ychwanegol, yn rhan o'r broses o negodi contract. Er bod y drafodaeth hon yn un driphlyg i raddau, rhwng y Cynulliad, y sefydliadau addysg uwch ac Addysg a Dysgu Cymru, y prif gysylltiad yw hwnnw rhwng y Cynulliad a'r sefydliadau addysg uwch. Swyddogaeth Addysg a Dysgu Cymru yw darparu manylion ffeithiol, ar sail eu gwybodaeth o'r stad a'r cyfleoedd am ddatblygiadau NHS a datblygiadau eraill, yn ogystal â sicrhau y ceir Gwerth Gorau am yr holl arian cyhoeddus a fuddsoddir.²¹
21. Dywedodd y Prif Weithredwr wrthym ei bod yn annhebygol y byddai'r NHS yn ystyried y posibilrwydd o gynyddu nifer y sefydliadau addysg uwch sy'n darparu hyfforddiant i broffesiynolion iechyd. Byddai'r costau ychwanegol, o ddadgyfuno a darparu gwasanaethau ar raddfa lai, yn sylweddol. Awgrymwyd yn hytrach y byddai'r Cynulliad yn dymuno edrych yn gyntaf ar faterion gwerth am arian, ac y byddai hynny, yn y rhan fwyaf o'r achosion, yn golygu adeiladu ar yr arbenigedd a'r arbedion graddfa sydd eisoes yn bod. Fodd bynnag, pe bai angen lletya rhagor o leoedd nag y gellir eu darparu o'r adnoddau presennol, ystyrid pob achos ar ei rinweddau.²²
22. Esboniodd y Prif Weithredwr hefyd y disgwylir, yn gyffredinol, i sefydliadau addysg uwch gyllido'u datblygiadau cyfalaf eu hunain, ar gyfer galwadau gan yr NHS am ragor o leoedd hyfforddi. Ond pan fo'r angen i ddarparu cyfalaf yn codi'n uniongyrchol yn unig, neu i raddau helaeth, o alwadau'r NHS, cred y gellir dadlau'n deg mai'r NHS ddylai dalu am y ddarpariaeth.²³
23. Yr ydym yn bryderus oherwydd y diffyg eglurder ynghylch mater y datblygiad cyfalaf mewn perthynas â galwadau ychwanegol gan yr NHS am leoedd

²¹ Tystiolaeth, C11

²² Tystiolaeth, C12

²³ Tystiolaeth, C41

hyfforddi. **Argymhellwn y dylai'r NHS a'r sefydliadau addysg uwch werthuso'r buddsoddiad cyfalaf y mae ei angen er mwyn darparu ar gyfer yr ehangu cyfredol ac arfaethedig yn niferoedd y myfyrwyr, sy'n deillio o'r NHS, a chytuno'n benodol ar y modd y cyllidir hyn.**

Argaeledd niferoedd digonol o leoliadau ymarfer o ansawdd da a staff hyfforddi

24. Un o'r prif gyfyngiadau ar ehangu niferoedd myfyrwyr yw'r niferoedd annigonol o leoliadau ymarfer o ansawdd da. Er bod y gofynion statudol ynglŷn â lleoliadau ymarfer wedi'u bodloni, nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cynulliad yn ymwybodol bod angen mentrau ychwanegol, ar gyfer y cynlluniau i gynyddu'r niferoedd a gomisiynir.²⁴ Esboniodd Cyfarwyddwr NHS Cymru fod hon yn broblem genedlaethol nad oedd yn gyfyngedig i Gymru. Un dull o weithredu, fodd bynnag, a weithiodd yn dda yng Nghymru, oedd darparu cyllid o tua £275,000 ar gyfer staff i oruchwylio myfyrwyr ar leoliadau Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol.²⁵
25. Mae'r NHS yng Nghymru wedi ail-gyflwyno cynllun i dalu am leoliadau ymarfer, a oedd wedi ei derfynu ym 1998 gan yr ystyriwyd ef ar y pryd yn amhriodol ac yn anghynaliadwy. Yr oedd hyn yn groes i'r polisi yn Lloegr, sy'n ymwrthod â thalu am leoliadau. Gofynasom pam yr oedd yr NHS wedi ail-gyflwyno'r cynllun hwn. Dywedwyd wrthym y defnyddir yr arian ar gyfer lwfansau addysgu clinigol i'r staff o'r proffesiynau iechyd atodol sy'n goruchwylio'r myfyrwyr ar leoliad. Caniateir hyn yng nghytundeb Whitley.²⁶
26. Cyfyngiad pellach ar gynyddu niferoedd y myfyrwyr yw'r angen am ragor o staff addysgu. Nododd Prif Weithredwr Addysg a Dysgu Cymru fod y prinderau staff cyfredol yn yr NHS yn achosi problemau ynglŷn â recriwtio niferoedd digonol o staff addysgu o ansawdd priodol i'r prifysgolion. Ni allai'r naill sector na'r llall ddatrys y broblem hon ar ei ben ei hunan, gan fod raid wrth ddialog agos rhwng y

²⁴ Adroddiad ACC paragraffau 2.2 - 2.26 a pharagraffau 3.28 – 3.30

²⁵ Tystiolaeth, Cwestiynau 21 - 22 a pharagraff 2 o'r nodyn i'r Pwyllgor

²⁶ Tystiolaeth, Cwestiynau 23 - 27 a pharagraff 2 o'r nodyn i'r Pwyllgor

ddau barti. Un ateb dros y blynyddoedd diwethaf fu'r twf yn nifer y darlithwyr-ymarferwyr. Bu'n fodd i osgoi colli'r bobl orau o'r gwasanaeth wrth eu hadleoli i'r byd addysgu.²⁷

27. Ni ellir cyflawni'r cynllun o ehangu nifer y myfyrwyr ar gyfer galwadau hirdymor yr NHS heb gynyddu nifer y lleoliadau ymarfer yn ogystal â'r buddsoddi mewn staff addysgu. **Yr ydym yn argymhell y dylai'r NHS a'r sefydliadau addysg uwch barhau i chwilio am ddulliau arloesol o ganfod a defnyddio lleoliadau ymarfer, ac i oresgyn problemau mewn perthynas â staff addysgu. Ar yr adeg briodol, dylid adolygu'r penderfyniad i gyllido lleoliadau, er mwyn asesu a yw'r dull hwnnw o ddefnyddio cyllid cyhoeddus yn cynrychioli'r gwerth gorau am arian, a rhoi gwybod i'r Pwyllgor pa gasgliadau a gyrhaeddir.**

Gwella'r dull o recriwtio myfyrwyr a lleihau athreulio

28. Mae'r sefydliadau addysg uwch yn llenwi'r lleoedd a gomisiynir trwy broses fanwl o recriwtio, dethol a derbyn. Wedyn maent yn amcanu i gadw'r myfyrwyr ar y cwrs trwy leihau'r athreulio i'r eithaf, er mwyn cyflenwi proffesiynolion iechyd newydd sydd â'r cymwysterau priodol ac, yn ddelfrydol, sy'n dymuno gweithio yn yr NHS.²⁸
29. Yng Nghymru, mae cyrsiau proffesiynolion iechyd fel arfer yn cynhyrchu cymhareb ceisiadau-lleoedd ffafriol yn y rhan fwyaf o'r disgyblaethau, ac o ganlyniad mae'r prifysgolion yn llwyddo i lenwi'r holl leoedd a gomisiynir. Mewn gwirionedd, ar gyfer rhai cyrsiau poblogaidd mae'r prifysgolion yn cadw rhestrau aros hyd at ddau neu dri derbyniad o flaen llaw.²⁹ Dywedodd yr NHS wrthym eu bod yn cael rhywfaint o anhawster i recriwtio a chadw rhai grwpiau o staff, yn enwedig yn y canghennau nyrsio ar gyfer iechyd meddwl ac anawsterau dysgu. Nodwyd bod swyddi o'r fath yn galw am fath penodol o

²⁷ Tystiolaeth, Cwestiwn37

²⁸ Adroddiad ACC, paragraff 2.27

²⁹ Adroddiad ACC, Paragraff 2.29

unigolyn, ac y byddai'r recriwtio'n cael ei dargedu'n fwy manwl yn y dyfodol. Maent yn gobeithio hefyd goresgyn y problemau ynglŷn â recriwtio radiograffwyr diagnostig trwy wneud yr alwedigaeth yn fwy deniadol, er enghraifft trwy gynnwys gweithgareddau newydd megis gwaith uwchsain o fewn eu maes. Er na chafwyd unrhyw anhawster i recriwtio ffisiotherapyddion, yr oedd prinderau staff cymwysedig yn digwydd serch hynny, oherwydd tangomisiynu, yn ôl pob tebyg.³⁰

30. Dywedasant wrthym fod cyfran sylweddol o'r recriwtiaid yn fyfyrwyr aeddfed gydag ymrwymadau eraill. O ganlyniad, mae NHS Cymru'n cydweithio gyda'r sector addysg uwch i edrych ar ffyrdd llawer mwy hygyrch a chreadigol o sicrhau y gall y bobl sy'n dymuno gweithio o fewn y gwasanaeth iechyd wneud hynny. Rhai o'r dulliau dan ystyriaeth yw e-ddysgu a hyfforddiant lleoledig; datblygu labordai sgiliau; a lleoliadau clinigol mwy addas. Dymunol oedd clywed am y bwriad i sefydlu cyd-weithgor o uwch swyddogion yn cynrychioli'r NHS a'r sector addysg uwch, a fyddai'n gweithio'n adeiladol ar y cynllun pum-mlynedd nesaf.³¹ Ar yr un pryd, bu'r NHS yn targedu ysgolion cynradd, i geisio creu diddordeb yn yr NHS a'i weithgareddau, ac y mae bwriad i sefydlu cynlluniau cadét er mwyn ennyn diddordeb cynnar mewn nyrsio.³²
- 31 Yr oedd y Pwyllgor o'r farn bod angen staff iechyd proffesiynol Cymraeg eu hiaith mewn llawer rhan o'r wlad, yn enwedig er mwyn ymdrin â chleifion ifanc a chleifion hŷn. Gofynasom a oedd yr anghenion ieithyddol yn cael eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Cytunodd Cyfarwyddwr yr NHS fod y mater yn peri pryder mewn rhai rhannau o Gymru, ac yr oedd y gallu i gyfathrebu'n ddwyieithog yn cael ei gymryd i ystyriaeth. Ychwanegodd y gwnaed cynnig gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i sicrhau bod therapyddion lleferydd, nyrsys cyffredinol a phroffesiynolion eraill yn addas i'r pwrpas ac yn alluog i gyfathrebu â'r poblogaethau a wasanaethir ganddynt.³³

³⁰ Tystiolaeth, C2

³¹ Tystiolaeth, C42

³² Tystiolaeth, Cwestiwn 2

³³ Tystiolaeth, Cwestiwn 15

32. Nododd y Pwyllgor gyda boddhad fod y cyfraddau athreulio ar gyrsiau a gyllidir gan yr NHS yng Nghymru yn cymharu'n ffafriol â chyfraddau cyrsiau addysg uwch eraill, a hefyd â'r cyrsiau a gyllidir gan yr NHS yn Lloegr. Er enghraifft, 15 y cant o'r myfyrwyr a ddechreuodd eu hyfforddiant ym 1996-97 a fethodd â chwblhau eu cwrs, sy'n cymharu â 17 y cant yn Lloegr ac 18 y cant ar gyrsiau eraill na chyllidir gan yr NHS.³⁴ Eto i gyd, mae athreulio'n gwastraffu adnoddau cyhoeddus, a gofynasom pa gamau y mae'r sector addysg uwch yn eu cymryd er mwyn ceisio gostwng y cyfraddau.³⁵
33. Dywedodd Prif Weithredwr Addysg a Dysgu Cymru wrthym fod y DU yn gyffredinol yn gwneud yn bur dda o ran cadw myfyrwyr, yn ôl y safonau rhyngwladol (mae'r gyfradd athreulio yn Ffrainc yn agos i 50 y cant). Fodd bynnag, er bod y gyfradd athreulio yng Nghymru'n ymddangos ychydig yn well na chyfradd Lloegr, yr oedd yn cydnabod bod sefyllfa gyffredinol y cyrsiau a gyllidir gan yr NHS yn y sector addysg uwch ychydig yn waeth. Credai fod hyn i'w briodoli'n rhannol i'r gymysgedd gymdeithasol o fyfyrwyr a geir yng Nghymru, sy'n gogwyddo mwy tuag at ardaloedd a grwpiau difreintiedig. Cytunodd y gellid gwneud rhagor i leihau'r cyfraddau athreulio.³⁶
34. Mae'r rhesymau pam y mae pobl yn rhoi'r gorau i'w cyrsiau yn niferus ac amrywiol, ac yn aml yn ymwneud ag arian. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at adroddiad yr Ymchwilydd Cyffredinol, sy'n cyfeirio at fenter i ganfod pam y mae rhai pobl yn rhoi'r gorau i'w cyrsiau, ac i ddilyn hynt myfyrwyr er mwyn canfod fyrrd o fentora a'u cynorthwyo yn ystod eu hastudiaethau. Tynnodd ein sylw hefyd at fentrau ar y cyd rhwng y sefydliadau ac ysgolion, a oedd yn amcanu i sicrhau bod gan ddarpar-fyfyrwyr y sgiliau dysgu sy'n ofynnol i oroesi ar gwrs addysg uwch.³⁷
35. Gwnaed llawer o waith i nodi'r arferion gorau ac i'w rhannu rhwng y sefydliadau. Gweithredwyd hefyd i gynnwys mentrau a fydd yn sicrhau bod

³⁴ Adroddiad ACC paragraff 2.33 a Chwestiwn 17

³⁵ Cwestiwn 17

³⁶ Cwestiwn 17

ysgolion yn arfogi darpar-fyfyrwyr â'r sgiliau angenrheidiol i oroesi ar gwrs addysg uwch. O ganlyniad i'r mesurau hyn, dywedwyd wrthym, yr oedd y gyfradd athreulio genedlaethol wedi gwella'n sylweddol yn y sector addysg uwch.³⁸

36. Pwysleisiodd yr NHS nad ydynt yn dymuno yn gweld eu harian a'u hadnoddau'n cael eu gwastraffu gan rai sy'n rhi'r gorau i'w cyrsiau, neu trwy recriwtio rhai sy'n gweld gwerth masnachol mewn gradd nyrsio, ond heb unrhyw wir fwriad o weithio fel nyrsys. Mae'r Pwyllgor yn ategu'r farn hon yn gryf, ac yn nodi bod yr NHS o'r farn mai'r ffordd orau i osgoi hyn yw trwy sicrhau mai'r NHS yw'r cyflogwr mwyaf deniadol.³⁹ **Er mwyn llwyddo yn hyn o beth, yr ydym yn argymhell y dylai'r NHS gynnwys sefydliadau addysg uwch yn llawn yn y gwaith o gynllunio a hyfforddi'r gweithlu iechyd proffesiynol newydd, gan weithredu ar y cyd a rhannu'r cyfrifoldeb am recriwtio, dethol a chadw.**

SICRHAU GWERTH AM ARIAN O ADDYSG A HYFFORDDIANT

37. Mae'r gwerth a geir am arian o addysg a hyfforddiant proffesiynolion iechyd yn dibynnu ar gost ac ansawdd yr hyfforddiant ac ar allu'r myfyriwr ar ôl cymhwyso.⁴⁰ O ganlyniad, buom yn holi'r NHS ac Addysg a Dysgu Cymru ynghylch gwerth am arian o'r trefniadau presennol.

Ynglyn â phrisiau a chostau

38. Mae'r Cynulliad yn cynnal adolygiadau contract blynyddol gyda'r sefydliadau addysg uwch ar gyfer pob un o'r prif gontractau cyn-cofrestru. Mae rhan o'r adolygiadau hyn yn cynnwys ail-negodi prisiau'r contract ar sail y pris am bob myfyriwr. Oherwydd mai negodi yw'r drefn yn hytrach na thendro cystadleuol, cymharol fach yw'r amrywiad yn y pris am bob myfyriwr, rhwng y contractau a gyllidir gan yr NHS. Er enghraifft, mae'r amrywiad pris yn ychydig dros 10 y cant rhwng y pedwar contract diploma nyrsio (o £4, 842 i £5,464). Mae'r

³⁷ Adroddiad ACC 2.36 - 2.38 a Chwestiwn 17

³⁸ Cwestiwn 17

³⁹ Tystiolaeth, Cwestiynau 1 - 2

amrywiad hwn yn llawer llai nag yn Lloegr (o £2,569 i £10, 570), er bod y pris cyfartalog am bob myfyriwr ychydig yn uwch yng Nghymru (£5,131 o gymharu â £4,991 yn Lloegr).⁴¹

39. Cred y Cynulliad fod ei broses o negodi'n sicrhau gwerth da am arian i'r NHS. Fodd bynnag, fel a ddangosir yn y dadansoddiad o'r contractau gan yr Archwilydd Cyffredinol, mae yna ddiffyg tryloywder ynghylch costau, ac amrywiadau eang yn y cyfrannau a esbennir fel costau staff, ac yn y modd y trinnir gorbenion. Daeth yr adroddiad i'r casgliad hwyrach nad yw'r sector prifysgol yn codi'r gost lawn am ddarparu cyrsiau a gyllidir gan yr NHS.⁴²

40. Dywedodd Prif Weithredwr Addysg a Dysgu Cymru wrthym na allai fod yn gwbl hyderus bod y pris am bob myfyriwr yn cwmpasu cost lawn yr addysg a ddarperir. Dywedodd hefyd nad yw'n bosibl gwybod i sicrwydd i ba raddau y mae'r sefydliadau'n trawsnoddi hyfforddiant NHS. Er nad yw'r Cyngor Cyllido'n gwrthod yn llwyr y posibilrwydd o rywfaint o drawsnoddi gan y sefydliadau, y mae'n ofynnol i'r sefydliadau fod mor eglur ag y bo modd ynghylch y costau, ac i gymryd hynny i ystyriaeth wrth benderfynu trawsnoddi neu beidio.⁴³

41. Mae'r Cyrff Cyllido trwy'r DU wedi sefydlu corff a elwir y Cyd-grŵp Llywio Costio a Phrisio, i edrych ar fater tryloywder ac i ddarparu methodoleg gostio addas ar gyfer sefydliadau addysg uwch. Derbyniodd pob sefydliad yng Nghymru £5,000 i'w helpu i sefydlu'r system gostio newydd, a disgwylir iddynt baratoi set briodol o gyfrifon am 2000-2001 sy'n gwahaniaethu rhwng: addysgu a gyllidwyd gan y cyhoedd; addysgu a gyllidwyd yn breifat; ymchwil a gyllidwyd gan y cyhoedd; ymchwil a gyllidwyd yn breifat; a gweithgareddau eraill.⁴⁴

⁴⁰ Adroddiad ACC paragraff 3.10

⁴¹ Adroddiad ACC paragraffau 3.2 a 3.3

⁴² Adroddiad ACC paragraffau 3.6 - 3.9 a Blwch B - Canfyddiadau Allweddol

⁴³ Tystiolaeth, Cwestiynau 29 - 32

42. Yr ydym yn cytuno ag awgrym y Prif Weithredwr y dylid cynnal trafodaethau manwl rhwng yr NHS, y Cynulliad a'r sefydliadau er mwyn penderfynu ar "bris rhesymol i'w dalu".⁴⁵ **Yr ydym yn argymhell y dylai'r broses o negodi contractau gynnwys trylwyredd llwyr ynglŷn â chostau a phrisiau'r cyrsiau a gyllidir gan yr NHS. Mae angen cadw cydbwysedd rhwng lleihau'r gost i'r NHS, diogelu'r ansawdd a pheidio ag ychwanegu at anawsterau ariannol y sefydliadau. Ni ddylai'r naill ochr na'r llall orfod wynebu'r annisgwyl, ac y mae angen system fonitro effeithlon er mwyn sicrhau bod y ddau barti'n cael gwerth da am arian allan o'u perthynas.**

Meincnodi a rheoli perfformiad mewn perthynas â chontractau

43. Sylwodd yr Archwilydd Cyffredinol nad yw ansawdd y canlyniadau dysgu ar gyfer proffesiynolion iechyd wedi ei ddiffinio'n dda, a bod hynny'n amharu ar yr ymdrechion i adolygu effeithiolrwydd y contractau addysg a hyfforddiant. Ni fu gan yr NHS, fel prynwr, unrhyw ddiffiniad eglur o'r hyn y mae'n ei ddisgwyl, o ran ansawdd y canlyniadau / cymwyseddau.⁴⁶
44. Yr oedd gwaith bellach mewn llaw i ddatblygu mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, gan gynnwys cymwyseddau a safonau meincnod, ac i fonitro ansawdd yr addysg a ddarperir. Dywedodd y Prif Weithredwr wrthym y byddai safonau'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch yn dod i rym cyn bo hir yng Nghymru. Paratowyd y safonau hollgynhwysol hyn yn dilyn trafodaethau gyda'r cyrff proffesiynol a'r sefydliadau addysg uwch. Cyflwynir y prototeip cyntaf yng Nghymru yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, er mwyn galluogi'r Cynulliad i fonitro canlyniadau mewn dyfnder. Gyda'r safonau hyn hefyd, gobeithir monitro addasrwydd y staff i'w pwrpas, a gweld a oes angen gweithredu neu ymyrryd ymhellach.⁴⁷

⁴⁴ Tystiolaeth, Cwestiynau 29 - 31

⁴⁵ Tystiolaeth, Cwestiynau 32 - 33

⁴⁶ Adroddiad ACC, paragraff 3.10

⁴⁷ Adroddiad ACC, Paragraffau 3.10-3.12 a tystiolaeth cwestiynnau 35-36

45. Yr ydym yn croesawu'r symudiadau i wneud y broses o adolygu contractau'n fwy tryloyw, ac i fabwysiadu'r safonau sicrwydd ansawdd newydd. **Yr ydym yn argymhell y dylai'r NHS a'r sefydliadau addysg uwch gytuno ar fframwaith polisi eglur ar gyfer contractau. Dylai'r rhain gynnwys targedau mewnbwn ac allbwn cenedlaethol-gyson sy'n hwyluso meincodi a rheoli perfformiad.**

Gwella'r modd y mae'r Cynulliad yn rheoli'r broses gomisiynu

46. Sefydlwyd y Grŵp Addysg a Hyfforddiant ym 1995 i ddarparu cyfarwyddyd strategol ynglŷn â'r broses gomisiynu. Ar y dechrau yr oedd yn cynnwys 18 cynrychiolydd o gyrff NHS yng Nghymru, yn ogystal â sylwedyddion o Fwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd a Choleg Staff NHS Cymru. Yn ystod 1996-97 penderfynodd y grŵp wahodd aelod ychwanegol i ymuno, ac i gynrychioli buddiannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Er bod y grŵp hwn yn un mawr, mae'n anghytwys oherwydd, er enghraifft, y gynrychiolaeth gyfyngedig o'r proffesiynau iechyd atodol, y gwasanaethau cymdeithasol a gofal sylfaenol, ac absenoldeb cynrychiolwyr o'r sectorau preifat a gwirfoddol ac o addysg uwch.⁴⁸
47. Bwriadwyd i'r Grŵp gyfarfod yn chwarterol, ond o'r 16 tro posibl dros y pedair blynedd ddiwethaf, cyfarfu 9 gwaith yn unig. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod y Cynulliad o'r farn nad yw'r Grŵp, mewn gwirionedd, wedi darparu'r cyfeiriad strategol a ragwelwyd, ond ei fod wedi gweithredu fel adolygwr proses.⁴⁹
48. Gofynasom i'r Cynulliad pa newidiadau a ystyriai oedd yn angenrheidiol a pha bryd y bwriadai eu cyflawni. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr yr NHS fod y Grŵp Addysg a Hyfforddiant bellach wedi cyflawni ei bwrpas, a bod yr Adolygiad Datblygu Gweithlu, a lansiwyd yn yr hydref 2000, yn ystyried dyfodol ei

⁴⁸ Adroddiad ACC, paragraffau 4.2 - 4.7

⁴⁹ Adroddiad ACC, paragraffau 4.7 - 4.8

swyddogaeth a'i gyfrifoldebau. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a fyddai model consortia / cydffederasiwn, fel yr un a ddefnyddir yn Lloegr,⁵⁰ yn fwy effeithiol. Ychwanegodd mai'r hyn a oedd ganddi mewn golwg oedd cydffederasiynau, a fyddai'n cynrychioli'r economïau iechyd sy'n datblygu yn ne, canolbarth, gorllewin a gogledd Cymru. Golygai hynny weithredu mewn dull mwy holistig, gan gymryd i ystyriaeth anghenion hyfforddiant y sectorau gwirfoddol ac annibynnol, ac ystyried y proffesiynau meddygol a'r newidiadau yn y ffiniau rhwng gweithwyr proffesiynol.⁵¹

49. Mae Cangen Addysg a Hyfforddiant Proffesiynol a Rheolwrol yr Is-adran Adnoddau Dynol, yn darparu cymorth gweinyddol ac ariannol a chymorth rheoli i'r Grŵp Addysg a Hyfforddiant; ac y mae hefyd yn rheoli'r contractau gyda'r prifysgolion. Mae cyflenwad staff y gangen yn 8.5, ond adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol fod 3 o'r uwch swyddi'n wag. Gofynasom i'r Cynulliad pa mor effeithiol oedd perfformiad y gangen o dan yr amgylchiadau hyn. Dywedwyd wrthym fod un o'r swyddi bellach wedi ei llenwi, ac y bwriedir adolygu'r adran ac ad-drefnu ei chyfrifoldebau yn rhan o'r Adolygiad Datblygu Gweithlu.⁵²
50. Yr ydym yn croesawu bwriad y Cynulliad i ddatblygu trefniadau mwy pwrpasol ar gyfer cynllunio a chomisiynu addysg ar gyfer y proffesiynau. Yn benodol, yr ydym yn croesawu'r cynnig i ddatblygu confederasiynau ac i ad-drefnu cyfrifoldebau'r Gangen Addysg a Hyfforddiant Proffesiynol a Rheolwrol, yn rhan o'r Adolygiad Cynllunio Gweithlu. **Mae'n bwysig bod y gwaith datblygiadol hwn yn cael ei gwblhau'n ddi-oed, er mwyn cyflenwi'r angen dybryd am drosolwg strategol, ac er mwyn sefydlu'r trefniadau newydd cyn gynted ag y bo modd.** Edrychwn ymlaen at gael gwybod cynlluniau ac amserlen y Cynulliad.

⁵⁰ Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar addysgu a hyfforddi gweithlu iechyd proffesiynol y dyfodol yn Lloegr (HC 277 Sesiynau 2000 - 2001)

⁵¹ Tystiolaeth, Cwestiynau 43 - 44

⁵² Adroddiad ACC paragraffau 4.9 - 4.12 a C45

CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

51. Yng ngoleuni'r canfyddiadau a'r casgliadau hyn, yr ydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:
- i. Dylai NHS Cymru osod a monitro targedau ar gyfer y defnydd o staff tramor a staff asiantaeth; dylai Ymddiriedolaethau NHS wirio a chadw cofnodion o'r hyfforddiant a gânt, a dylent geisio lleihau eu dibyniaeth ar staff o'r fath o fewn amserlen a gytunir;
 - ii. dylai Cyfarwyddiaeth yr NHS gydweithio â'r holl gyflogwyr NHS i sicrhau bod personél medrus ganddynt ar gyfer cynllunio gweithlu, eu bod yn defnyddio systemau data a chynllunio cyffredin a'u bod yn casglu data cymaradwy cywir am y cyfraddau swyddi gwag;
 - iii. dylai'r NHS a'r sefydliadau addysg uwch werthuso'r buddsoddiad cyfalaf y mae ei angen er mwyn darparu ar gyfer yr ehangu cyfredol ac arfaethedig yn niferoedd y myfyrwyr, sy'n deillio o'r NHS, a chytuno'n benodol ar y modd y cyllidir hyn;
 - iv. dylai'r NHS a'r sefydliadau addysg uwch barhau i chwilio am ddulliau arloesol o ganfod a defnyddio lleoliadau ymarfer, i oresgyn problemau mewn perthynas â staff addysgu. Ar yr adeg briodol, dylid adolygu'r penderfyniad i gyllido lleoliadau, er mwyn asesu a yw'r dull hwnnw o ddefnyddio cyllid cyhoeddus yn cynrychioli'r gwerth gorau am arian, a rhoi gwybod i'r Pwyllgor pa gasgliadau a gyrhaeddir;
 - v. mae angen i'r NHS gynnwys sefydliadau addysg uwch yn llawn yn y gwaith o gynllunio a hyfforddi'r gweithlu iechyd proffesiynol newydd, gan weithredu ar y cyd a rhannu'r cyfrifoldeb am recriwtio, dethol a chadw;
 - vi. dylai'r broses o negodi contractau gynnwys trylwyredd llwyr ynglŷn â chostau a phrisiau'r cyrsiau a gyllidir gan yr NHS. Mae angen cadw cydbwysedd rhwng lleihau'r gost i'r NHS, diogelu'r ansawdd a pheidio ag ychwanegu at anawsterau ariannol y sefydliadau. Ni ddylai'r naill ochr na'r llall orfod wynebu'r

annisgwyl, ac y mae angen system fonitro effeithlon er mwyn sicrhau bod y ddau barti'n cael gwerth da am arian allan o'u perthynas;

- vii dylai'r NHS a'r sefydliadau addysg uwch gytuno ar fframwaith polisi eglur ar gyfer contractau. Dylai'r rhain gynnwys targedau mewnbwn ac allbwn cenedlaethol-gyson sy'n hwyluso meincnodi a rheoli perfformiad; a
- viii dylai gwaith yr Adolygiad Cynllunio Gweithlu, o ddatblygu cydffederasiynau ac ad-drefnu'r Grŵp Addysg a Hyfforddiant Proffesiynol a Rheolwrol cael ei gwblhau'n ddi-oed, er mwyn cyflenwi'r angen am drosolwg strategol. Dylid sefydlu'r trefniadau newydd cyn gynted ag y bo modd.

SYLWADAU TERFYNOL

- 52. Ers tua dwy flynedd bellach, mae'r NHS yng Nghymru wedi dioddef oherwydd prinderau sylweddol o staff iechyd proffesiynol. Mae'r prinderau hyn yn peryglu'r gwelliannau a gynlluniwyd ar gyfer y gwasanaethau gofal iechyd. Mae angen i'r NHS a'r sefydliadau addysg uwch gydweithio'n agosach mewn partneriaeth er mwyn sicrhau y comisiynir y niferoedd a'r mathau priodol o leoedd i fyfyrwyr iechyd proffesiynol; bod ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir yn cael ei ddiogelu; a bod y cyfraddau athreulio yn gostwng. Dylid rhoi sylw ar frys hefyd i'r angen i fuddsoddi mewn llety a staff ar gyfer addysgu.
- 52. Mae'n hanfodol hefyd cael cydbwysedd rhwng cost yr hyfforddiant a ddarperir a'r pris a delir gan yr NHS; a bod y pris hwnnw'n cynrychioli gwerth da am arian i'r ddau sector. Mae angen sefydlu strwythurau prisio a chostio newydd; ac angen i'r Cynulliad sicrhau y pennir cyfeiriad strategol eglur i'r gwaith o gomisiynu addysg a hyfforddiant.

ATODIAD A

*Trafodion perthnasol y Pwyllgor - Cofnodion Tystiolaeth
(Dydd Iau 28 Mehefin 2001)*

Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Mae pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei archwilio'n gywir ac yn drylwyr. Yn fras, rôl y Pwyllgor Archwilio fydd yw ymchwilio i'r adroddiadau ar gyfrifon y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus eraill a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynulliad wrth ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau. Nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio yn fanwl yn Rheol Sefydlog 12.

Aelodaeth y Pwyllgor a benodwyd yw:

Cadeirydd: Janet Davies (Plaid Cymru)

Alun Cairns (Ceidwadwyr)

Jocelyn Davies (Plaid Cymru)

Alison Halford (Llafur)

Val Lloyd (Llafur) wedi cymryd lle Ann Jones (Llafur) - 27fed Tachwedd 2001

Janice Gregory (Llafur) wedi cymryd lle Peter law (Llafur) - 27fed Tachwedd 2001

Lynne Neagle (Llafur)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru)

Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol)

Os dymunwch gysylltu â'r Pwyllgor gallwch wneud hynny drwy anfon neges e-bost ato yn audit.comm@wales.gsi.gov.uk neu drwy ysgrifennu at neu ffonio Clerc y Pwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA. Y rhif ffôn yw (029) 20 898155.

